# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Fideo gynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 4 Chwefror 2021

Amser: 13.30 - 16.45

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11152

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Mike Hedges AS (Cadeirydd)<br>Janet Finch-Saunders AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Neil Hamilton AS<br>Jenny Rathbone AS<br>Huw Irranca-Davies AS (yn lle Joyce Watson AS) |
| Tystion: | Lesley Griffiths AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig<br>Gian Marco Currado, Llywodraeth Cymru<br>Christianne Glossop, Y Prif Swyddog Milfeddygol, Llywodraeth Cymru<br>John Howells, Llywodraeth Cymru<br>Dean Medcraft, Llywodraeth Cymru<br>Tim Render, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Elizabeth Wilkinson (Ail Glerc)<br>Andrea Storer (Dirprwy Glerc)<br>Katy Orford (Ymchwilydd)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, cafwyd datganiad gan y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu y dylid gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor i ddiogelu iechyd y cyhoedd.

1.3 Os byddai unrhyw broblemau technegol yn codi yn ystod y cyfarfod, gan olygu y byddai ei gyswllt band eang yn cael ei dorri, nododd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno y byddai Jenny Rathbone AS yn cymryd ei lle fel Cadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Joyce Watson AS. Dirprwyodd Huw Irranca-Davies AS ar ei rhan.

## 2 Sesiwn graffu gyffredinol gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

2.1 Bu'r Aelodau yn holi Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

## 3 Parhau â'r sesiwn graffu gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

3.1 Parhaodd yr Aelodau i holi Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.

## 4 Papurau i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 4.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar lifogydd yng Nghymru

### 4.2 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ynghylch Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mesur Dros Dro) (Covid-19) (Diwygio) 2021

### 4.3 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn cysylltiad ag effaith yr anghydfod parhaus rhwng Centrica (Nwy Prydain) ac undeb y GMB ynghylch darpariaeth NYTH

### 4.4 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ynghylch Fframweithiau Cyffredin

### 4.5 Gohebiaeth gan Gadeirydd y Comisiwn Masnach ac Amaethyddiaeth yn dilyn ymddangosiad y Comisiwn yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 21 Ionawr

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Sesiwn graffu gyffredinol gyda Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig - trafod y dystiolaeth a daeth i law o dan eitemau 2 a 3

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn graffu. Cytunwyd i ysgrifennu at y Gweinidog i gael rhagor o wybodaeth am rai o'r materion a godwyd.

## 7 Y diweddaraf am Fframweithiau Cyffredin

7.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ac ystyriodd ei waith mewn perthynas â Fframweithiau Cyffredin y DU.